| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO – PWYLLGOR ARBENNIG** |
| **DYDDIAD:** | **09 CHWEFROR 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD::** | **YMGYNGHORIAD AR YR ADOLYGIAD ARFAETHEDIG O GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **ER GWYBODAETH A SYLW** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **RHEOLWR ARCHWILIO** |
| **GWEITHREDU:** | **DIM** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Bu rhai newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â Phwyllgorau Archwilio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (PSIAS - 2013 – Mesur LG 2011 – Rheoliadau Archwilio a Chyfrifon - 2010) ac yn yr arweiniad a roddir i awdurdodau lleol yn nhermau rôl a chyfrifoldebau eu Pwyllgorau Archwilio (Datganiad Sefyllfa CIPFA ar Bwyllgorau Archwilio - 2013).

1.2 Yr hyn sy'n amlwg o goladu rheoliadau a chanllawiau perthnasol yw bod mwy o rôl wedi datblygu i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob agwedd o sicrwydd ac nid canolbwyntio yn bennaf ar drefniadau ariannol a rheolaethau. Mae Canllawiau CIPFA yn datgan fel ei swyddogaeth craidd cyntaf y dylai'r Pwyllgor Archwilio:-

> *Fod yn fodlon bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu yn briodol yr amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i'w wella , ac yn dangos sut mae trefniadau llywodraethol yn cefnogi gwaith i gwrdd ag amcanion yr awdurdod.*

1.3 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2014 cytunodd y Pwyllgor Archwilio hwn i argymell i'r Cyngor newid enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i wneud yn fwy tryloyw rôl ehangach cyffredinol y Pwyllgor o ran trefniadau llywodraethol a sicrwydd.

1.4 I bwysleisio y datblygiad ymhellach mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ac mae set arfaethedig ddrafft o dermau wedi'i chynhyrchu a'i hanfon ymlaen i aelodau cyn y Gweithdy gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2015 ac wedi'i hatodi fel Atodiad A o'r ddogfen hon i'w hanfon ymlaen at aeoldau cyn y pwyllgor arbenning ar 09 Chwefror 2015.

1.5 Gofynir i'r Pwyllgor ystyried y cylch gorchwyl drafft ac adrodd unrhyw sylwadau i'r Swyddog Monitro cyn y bydd y cylch gorchwyl diwygiedig yn cael ei argymhell gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2015 i'w fabwysiadu gan y Cyngor yn y cyfarfod i'w gynnal ar 14 Mai 2015.

**Atodiad A**

## Cyngor Sir Ynys Môn

## Pwyllgor Llywodraethu Archwilio - DRAFFT ARFAETHEDIG Cylch Gorchwyl

## Pwrpas

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r awdurdod ac yn darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a goruchwyliaeth ariannol cyhoeddus cryf.

Mae'r Pwyllgor yn darparu i'r rhai sy'n gyfrifol am reolaethu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol, a chywirdeb yr adroddiadau ariannol. Trwy oruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol a rheolyddion eraill mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol wedi eu sefydlu.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi ei nodi isod.

## Llywodraethu Corfforaethol

Adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheolaethau corfforaethol a chytuno ar gamau i sicrhau cydymffurfiaeth ag arferion gorau.

Monitro cydymffurfiad y Cyngor gyda'i safonau ei hunain a rheolaethau cyhoeddedig eraill, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion Iechyd a Diogelwch.

Sicrhau bod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol o swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian.

Adolygu effeithiolrwydd y rheolaeth mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu ac argymell mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar yr adeg llofnodi a dyddio y cyfrifon blynyddol gan y swyddog ariannol perthnasol ar yr hwyraf.

Darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Parhau i adolygu trefniadau llywodraethol sy'n ymwneud â phartneriaethau sylweddol y mae'r Cyngor yn barti iddynt a chadw dan adolygiad effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â gweithio mewn partneriaeth.

Ystyried fframwiath sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn rhoi sylw digonol i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.

## Rheoli Risg

Parhau i adolygu Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor.

Adolygu'r gwaith o ddatblygu, gweithredu ac ymgorffori rheoli risg o fewn y Cyngor gan gynnwys gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ar ddigonolrwydd y trefniadau hynny.

Adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol a, lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan reolwyr ar gamau i reoli materion perthansol â risg adroddir i'r Pwyllgor.

Adolygu proffil risg y sefydliad a'r sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd ar faterion yn gysylltiedig â risg, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phartneriaethau arwyddocaol.

## Cyfrifon Ariannol

Adolygu a sgriwtineiddio datganiad cyfrifon yr awdurdod cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn i sicrhau bod polisïau cyfrifo cywir wedi cael eu dilyn a bod yr holl bryderon sy'n codi o'r datganiad ariannol neu'r archwiliad yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor trwy adroddiadau ac argymhellion priodol.

Ystyried adroddiad yr archwiliwr allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ar faterion yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon.

Sgriwtineiddio Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Adroddiad Blynyddol ar Weithgareddau'r Trysorlys cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Derbyn adroddiadau chwe misol ar Reoli'r Trysorlys er mwyn monitro datblygiadau a thueddiadau.

Adolygu amlygiad risg y Cyngor a'i allu i reoli risg mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli'r Trysorlys.

## Archwilio Mewnol ac Allanol

Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol a sicrhau bod y Siarter yn darparu y lefel angenrheidiol o awdurdod ac annibyniaeth sefydliadol i Archwilio Mewnol gyflawni ei waith yn effeithiol.

Cymeradwyo'r penderfyniadau ynglŷn â phenodi a diswyddo prif weithredwr archwilio a thâl y prif weithredwr archwilio.

Ystyried strategaethau cynllunio archwilio yr archwilwyr mewnol ac allanol gan gynnwys ffi yr archwiliwyr allanol.

Cymeradwyo'r cynllun Archwilio Mewnol sydd yn seiliedig ar risg a sicrhau bod cyllideb ac adnoddau Archwilio Mewnol digonol ar gael i'w gwblhau.

Rhoi sylwadau ar gylch gorchwyl a dyfnder gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.

Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r prif weithredwr i ganfod os oes cyfyngiadau amhriodol i'r cylch gorchwyl neu adnoddau.

Ystyried adroddiadau blynyddol a barn yr archwilwyr mewnol ac allanol gan gynnwys ystyried Llythyr Blynyddol yr archwiliwr allanol.

Ystyried barn y prif weithredwr archwilio ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwiath llywodraethu'r Cyngor , rheoli risg a rheolaethau.

Ystyried adroddiadau unigol Archwilio Mewnol a rheolyddion allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

Adolygu cynnydd cyflawni'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol a Strategaeth Archwilio Mewnol drwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol gan y prif weithredwr archwilio.

Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro gweithredu ar gamau y cytunwyd arnynt.

Cyfrannu at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ac yn arbennig i'r asesiad sicrwydd allanol o archwilio mewnol sy'n cymryd lle o leiaf bod pum mlynedd.

Ystyried ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gan yr archwiliwr mewnol a rheoleyddion allanol, a lle bo'n briodol gofyn am ymateb gan reolwyr.

Adolygu perfformiad archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

Mae hawl gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i ystyried unrhyw fater y mae'r archwilwyr yn credu y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor.

## Atal Twyll a Llygredd

Adolygu polisïau'r Cyngor a threfniadau gweithredol ar gyfer i swyddogion ac aelodau godi pryderon yn gyfrinachol am gamweddau posibl mewn adroddiadau ariannol a materion eraill, gan gynnwys camau dilynol priodol.

Adolygu polisi a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a llygredd.

Adolygu'r asesiad o risg twyll a niwed dichonol i'r Cyngor o ganlyniad I dwyll a llygredd.

Adolygu systemau a rheolaethau y Cyngor ar gyfer atal llwgrwobrwyo a derbyn adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio.

Derbyn adroddiad blynyddol gan y Swyddog Corfforaethol Atal Twyll ar yr holl anghysondebau a amheir gan gynnwys unrhyw achosion o dwyll a llygredd.

## Trefniant Atebolrwydd

I adrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ar ddarganfyddiadau'r pwyllgor , canlyniadau ac argymhellion yn ymwneud a digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethol, rheoli risg a rheolaethau mewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

Adrodd i'r Cyngor llawn ar sail rheolaidd ar berfformiad y Pwyllgor mewn perthynas â'r cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y Pwyllgor i gwrdd â'i bwrpas.

## Adnoddau Ymgynghorol

Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan y Swyddog Adran 151 dynodedig fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, a gan yr archwilwyr allanol a mewnol. Yn ychwanegol fe allant hefyd, o fewn cyllideb a gymeradwywyd, geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r awdurdod.

## Amlder

Isafswm o 4 cyfarfod y flwyddyn.

Rhaid i'r pwyllgor gyfarfod os bydd yr awdurdod yn ei gyfanrwydd yn penderfynu y dylai neu os bydd o leiaf un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor yn gofyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y pwyllgor am gyfarfod.

## Aelodaeth

Wyth aelod o'r Cyngor, i fod yn wleidyddol gytbwys, yn ogystal â hyd at ddau aelod cyfetholedig lleyg i'w penodi gan y Pwyllgor.

Ni fydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor hwn. Mae angen i'r Deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo modd, i fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Aelodau cyfetholedig, sydd ddim yn aelodau o'r Cyngor, i gael eu recriwtio ar gyfer sgiliau priodol i waith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac i'w penodi gan aelodau Cynghorwyr y Pwyllgor

Archwilio a Llywodraethu am gyfnod penodol i gael ei benderfynu ganddynt pan fydd y penodiad yn cael ei wneud.

Bydd pob aelod o'r pwyllgor yn cael pleidlais.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn penodi ei Gadeirydd ac ni fydd yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith ac eithrio pan fydd pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith (a gallai fod yn aelod cyfetholedig).

---------------- DIWEDD -------------